Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

# GRŴP GWAITH FFORWM CYLLID YSGOLION
# Dydd Mawrth 14 Mawrth 2023
# (Ysgol Uwchradd Afon Taf)

## N O D I A D A U

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Stuart James (Ysgol Uwchradd Afon Taf)<br>Sarah Hopkins (Blessed Carlo Acutis)<br>Owen Morgan (Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa)<br>Anthony Lewis (Pennaeth Cynllunio Ysgol, Cymorth ac Adnoddau) |
| **Yn gweinyddu:** | Ian Kent (Cyfrifydd Addysg)<br>Joanna Lewis (Rheolwr LMS)<br>Gary Winston (Clerc y Fforwm) |

| Rhif | Trafodaeth/Cam Gweithredu |
|---|---|
| **1.** | **<u>Ymddiheuriadau</u>**<br>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ryan Morgan, Rhiannon Stephens Davies, David Anstee ac Alwen Bowen. |
| **2.** | **<u>Is-Gadeirydd</u>**<br>Apwyntiwyd Stuart James yn Is-Gadeirydd y Grŵp Gwaith a chadeiriodd y cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd. |
| **3.** | **<u>Diweddariad Cyllido LRB</u>**<br>Cyflwynodd AL bapur yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Cyllid a ddarperir ar hyn o bryd i LRB cynradd.<br>• Adborth gan Benaethiaid ac argymhellion cyllid y dylid rhoi ystyriaeth iddynt.<br>• Addasrwydd y model cyfredol.<br>• Ystyriaethau ychwanegol.<br>• Cyllid a ddarperir ar hyn o bryd i LRB uwchradd.<br>• Adborth gan Afon Taf ac argymhellion cyllid y dylid rhoi ystyriaeth iddynt.<br>• Addasrwydd y model cyfredol.<br>• Ystyriaethau ychwanegol.<br>Argymell y ffordd ymlaen.<br>Taenlen 1 - LRB Cyfartalog v Cyflogau<br>• Taenlen 2 – cyllid CCD<br><br>**SJ: Bydd tair ysgol ar eu colled yn sgil y newidiadau arfaethedig. A fyddai'n bosib cael cyfnod pontio i'w cynorthwyo?**<br>AL: Mae'n rhywbeth yr ydym wedi ei wneud o'r blaen a gallwn ei ystyried.<br><br>**OM: Os oes cynnydd yn y gyllideb, a fydd yn dod gan yr Awdurdod Lleol neu o gyllideb cyffredinol yr ysgol?** |

| Rhif | Trafodaeth/Cam Gweithredu |
|---|---|
| | AL: Os bydd cynnydd, bydd yn cael ei ariannu gan yr ALl.<br><br>AL: Rydym yn edrych am gytundeb i symud i'r model cyflog yn 23/24 ac yn argymell fod Grŵp Llywio AAY – Grŵp LRB T&F yn adolygu cyllido LRB, yn unol â'r adroddiad.<br><br>**SJ: A ymgynghorwyd â phob ysgol?**<br>AL: Bu'n anodd cael ymateb manwl i ymholiadau ar gostau gan ysgolion yn sgil gweithredu diwydiannol a faint o waith fyddai ei angen ond rhoddwyd cyngor i bob ysgol ar feysydd lle y mae gwasgfeydd ariannol.<br><br>**SJ: A fyddai fodd i ni gael gwybodaeth am gyflogau a darparu costau gan Adran y Gyflogres?**<br>AL: Rydym wedi gofyn ond nid oes ganddynt yr holl wybodaeth o ran pwy sydd wedi staffio'r holl ddosbarthiadau, costau cyflenwi ar gyfer y dosbarth ac ati.<br><br>Cytunwyd, y dylid:<br><br>• Ariannu costau athro yn 23/24<br>• Parhau i ariannu CCD gan ddefnyddio'r model presennol yn 23/24.<br>• Gofyn i'r Grŵp Llywio AAY/Grŵp Gorffen a Gorchwyl CAD i adolygu'r canlynol yn ystod 23/24 ac adrodd yn ôl i'r Fforwm Cyllid Ysgolion ar unrhyw newidadau ychwanegol y dylid eu gweithredu o Ebrill 24:<br><br>a) Lefelau cyllid cyfredol ar gyfer adnoddau a chyflenwi.<br>b) Os oes angen dyraniadau cyllido newydd ar gyfer atgyweiriadau i FF ac E, lwfansau car, RRA ychwanegol ac eithemau eraill os oes angen.<br>c) Lefel cyllido cyfredol ar gyfer Cydlynwyr AAY. Amser mewn CAD uwchradd a dyraniad cyllid newydd ar gyfer Cydlynwyr AAY. Amser mewn CAD Cynradd.<br>d) Niferoedd CCD/CCD Uwch sydd angen eu cyllido drwy'r fformiwla ar gyfer pob dosbarth.<br>e) Capasiti disgybl ar gyfer pob dosbarth.<br>f) Lefel cyllid AWPU a ddarperir ar gyfer disgyblion CAD uwchradd pan fyddant mewn prif ffrwd.<br>g) Niferoedd o ddosbarthiadau CAD uwchradd i'w cyllido. |
| **4.** | **<u>Fframwaith Gwerthuso Blynyddol CLG</u>**<br>Amlinellodd Joanna Lewis y trefniadau cyfredol ar gyfer gwerthuso CLG a chyflwynodd pedwar model posib i'w defnyddio:<br><br>• Opsiwn 1 – model cyfredol<br>• Opsiwn 2 – sgor fel dyfarniadau<br>• Opsiwn 3 – dyfarniadau cyffredinol yn unig<br>• Opsiwn 4 – dim dyfarniad<br><br>SJ: Nid oes gennyf unrhyw deimlad cryf ond byddai Model 3, o bosib yn cael ei ffafrio lle yr ydym yn gosod dyfarniad cyffredinol.<br><br>SH: Cytunaf, byddai dyfarniad cyffredinol yn mynd â llai o amser.<br><br>AL: Mae sgop ar gyfer adolygiad mwy sylfaenol ond gan ein bod ar hyn o bryd ynghanol CLG tair mlynedd o hyd, byddai'n fwy addas i gael adolygiad bryd hynny.<br><br>JL: Os oes cefnogaeth ar gyfer model sydd yn gyfuniad o fodel 3 a 4, byddwn yn paratoi ar gyfer hynny. |

| Rhif | Trafodaeth/Cam Gweithredu |
| --- | --- |
| | Yn dilyn trafodaeth bellach, cytunwyd y dylid argymell model 3 i Fforwm yr Ysgolion ynghyd ag Opsiwn 4 ac Opsiwn 5 newydd a fyddai'n cyfuno Opsiynau 3 a 4. |